



Casgliad Llinell Amser LHDTTC+ Cymru

CYFLWYNIAD

Yn 2021 fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu hyfforddiant yn *laith a Hanes LHDTTC+* ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau lleol i annog dathlu straeon lleol o gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd.

Mae hyn yn rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o boblogaeth amrywiol Cymru gan ganmol Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru sy'n ceisio

- mynd ir afael ag anghydraddoldebau a brofi gan gymunedau LHDTTC+
- herio gwahaniaethu
- creu cymdeithas lle mae pobl LHDTTC+ yn ddiogel i fyw a charu mewn ffordd sy'n agored, yn rhydd ac yn drw iddynt eu hunain.

Roedd yr hyfforddiant yn cynnig pwyntiau dysgu ac offer ymarferol effeithiol i alluogi staff a gwirfoddolwyr i symud ymlaen gyda rhaglen gwbl gynhwysol gan arwain at ehangu hyn y tu hwnt i'r sefydliad i'r cyhoedd, megis haneswyr teuluol, haneswyr lleol a grwpiau cymunedol. Roedd yn galluogi hyrwyddo deunydd hanesyddol mewn ffyrdd nad oedd hyn wedi'i wneud o'r blaen a gwella gwaith

gyda sefydliadau partner, nid yn unig wrth wneud deunydd LHDTTC+ yn hygyrch i'r cyhoedd, ond hefyd wrth gasglu a chadw'r dreftadaeth hon.

Un o ganlyniadau'r hyfforddiant laith a Hanes LHDTTC+ yw creu llinellau amser ar gyfer pob un o'r 22 sir yng Nghymru. Mae hyn yn galluogi dathlu pobl, cynghreiriaid a digwyddiadau lleol yn lle efelychu naratifau ac enwogion prif ffrwd.

Crëwyd llinell sylfaen o adegau hanes wedi'u hamlygu gan Norena Shopland o'i chasgliad deunydd hanesyddol Cymreig ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd, ac o hynny cyfrannodd at Grŵp Ymchwil LHDTTC+ Cymru a sefydlwyd i annog a hyrwyddo ymchwil i hanes LHDTTC+ Cymru. Mae eu gwefan, LGBTQ Cymru, yn cael ei hariannu gan Brifysgol Abertawe i gofnodi cymaint o wybodaeth â phosib am yr hanes hwn.
<https://lgbtqcymru.swansea.ac.uk/>

Mae gan linell amser pob sir gynhaliwr neilltuedig a fydd yn annog dathlu pobl leol, cynghreiriaid a digwyddiadau yn ystod cyfnodau dathliadol trwy gydol y flwyddyn. Mae pobl yn cael eu hannog i ychwanegu at y llinellau amser a pharhau i'w hehangu er mwyn eu gwneud mor gynhwysfawr â phosibl.



RHIFYN CAERDYDD

Amgueddfa Caerdydd sy'n cynnal y rhifyn Caerdydd hwn ac ymhelaethwyd arno gan Jordan Taylor, Kelsie Neak, staff a gwirfoddolwyr. Mae deunydd ychwanegol wedi'i gyfrannu gan Mark Etheridge o Amgueddfa Cymru, a phobl leol sydd wedi cyfrannu syniadau a straeon.

Os oes gennych unrhyw beth yr hoffech ei roi i Amgueddfa Caerdydd neu i Amgueddfa Cymru, byddem wrth ein boddau o glywed gennych.



Amgueddfa hanes cymdeithasol yw Amgueddfa Caerdydd sy'n rhannu hanes Caerdydd trwy straeon personol pobl.


Ynghlwm wrth lawer o'r eitemau, yr effemera a'r ffotograffau a gasglwyd mae straeon personol, felly mae hanes y ddinas yn cael ei adrodd gan y bobl a'i siapiodd. Rydym yn casglu eitemau o'r gorffennol a'r presennol, ac nid yw ein gwaith byth yn gorffen o ran ychwanegu at stori Caerdydd.

AMGUEDDFA CYMRU

Mae Amgueddfa Caerdydd yn cydweithio'n agos ag Amgueddfa Cymru ac yn arbennig Mark Etheridge, sy'n Guradur Hanes LHDTTC+. Mae Amgueddfa Cymru wrthi'n casglu hanes LHDTTC+, gan sicrhau bod y casgliad yn gwbl gynrychioliadol o'r holl gymuned ledled Cymru, er mwyn helpu i adrodd hanes LHDTTC+ cyfoethog Cymru.

19EG GANRIF

Roedd miloedd o 'forwyr benywaidd' a 'milwyr benywaidd' trwy gydol hanes. Roedd y rhain yn byw fel pobl draws, yn aml am ddegawdau, ac yn gwasanaethu ar longau bwrdd ac mewn catrodau milwrol. Daeth rhai'n enwog, megis Hannah Snell.



1842

Morwr benywaidd

Ddydd Iau diwethaf, wrth i'r Lady Charlotte ar fin hwylio o Gaerdydd, tynnwyd sylw P. C. Perkins at berson mewn gwisg morwr a oedd yn dangos arian yn eithaf di-hid ac yn mynegi pryder mawr o ran taith y bacedlong. Aeth Perkins ato, ac ar ôl iddo wrthod rhoi unrhyw esboniad o sut y cafodd yr arian neu o ble y daeth, aeth ag ef i Dŷ'r Orsaf. Roedd Mr. Uwch-arolygydd Stockdale, ar ôl gofyn ambell gwestiwn, yn amau mai merch oedd y sawl oedd yn ymddangos fel bachgen o forwr, a'i chyhuddo o fod felly, a wadodd hithau hynny'n gryf. Gorfodwyd menyw i'w chwilio, a daeth i'r

amlwg mai merch Gymreig bert oedd y morwr ifanc. Gan sylweddoli oferedd parhau â'r guddwisg, rhoddodd gyfrif ohoni ei hun. Ei ffugenw fel y morwr oedd Edward Williams, ond ei henw go iawn oedd Mary Davis. Roedd hi'n 20 oed. Bu'n byw gyda'i thad, oedd yn ffermwr methiannus, tua naw milltir o Ferthyr, a rhwng y lle hwnnw a Chastell-nedd. A hithau â brawd oddi cartref, roedd hi'n benderfynol o fynd i chwilio amdano. Roedd hi wedi derbyn llythyr ganddo'n ddiweddar gyda £5 wedi'i amgáu, ac roedd yn cynnwys cais iddi ddod ato. Collodd hi'r llythyr hwn ac felly roedd wedi anghofio'n llwyr am gyfeiriad ei brawd ac nid oedd hi'n gwybod p'un a ddaeth y llythyr o America, Awstralia, neu Iwerddon. Ei diben yn yr achos presennol oedd mynd i Fryste, ac oddi yno i America. Cafodd hi ofal trylwyr yn Nhŷ'r Orsaf ac ymwelwyd â hi gan y Maer Parchus a'r Parch. T. Stacey a oedd, ar ôl clywed ei datganiadau, yn argyhoeddedig ei bod o feddwl gwan. Cyfarwyddwyd ei hanfon i Dŷ'r Undeb, nes y gellid cyfathrebu â'i ffrindiau, a gadawyd ei harian yn nwylo Mr Stockdale. Mae Mr Stockdale yn haeddu clod mawr am ei sylw trugarog i'r ferch druan a fyddai, heb os nac oni bai, wedi colli ei harian bach i ladron os byddai hi wedi mynd i mewn i'r dref. Mae hi wedi dychwelyd i wisgo dillad benywaidd; y rheswm a roddodd am roi'r gorau iddi oedd ei bod yn credu y gallai deithio'n fwy diogel ymysg morwyr fel dyn nag fel merch heb ei gwarchod. Nid yw hi'n gallu siarad gair o Saesneg.

Ffynhonnell: *Welshman*, 23 Medi 1842

1855

Nos Fercher ddiwethaf, aethpwyd â menyw ifanc, mewn dillad morwr, i dŷ'r orsaf am fod yn feddw ac yn afreolus. Drannoeth aethpwyd â hi gerbron yr ynadon. Ei henw oedd Susan Brunin, o Gasnewydd. Roedd hi wedi bod ar y môr ers tri mis, ac roedd yn cael ei hystyried yn forwr galluog. Cafodd

hi waith gan gapten llong yn Nociau Caerdydd hefyd, a'i talodd fis ymlaen llaw, ond ar ôl darganfod ei fod wedi cyflogi merch, gwrthododd gadw ei gontract. Cafodd y carcharor ei cheryddu gan yr ynadon, a'i chynghori i ddychwelyd adref a dewis ffordd fwy gweddus o fyw. Yna cafodd ei rhyddhau.

Ffynhonnell: *Monmouthshire Merlin*, 18 Awst 1855

Morwr benywaidd arall

Aethpwyd â menyw ifanc, mewn dillad morwr, i dŷ'r orsaf am fod yn feddw ac yn afreolus. Drannoeth aethpwyd â hi gerbron yr ynadon. Ei henw oedd Susan Brunin, o Gasnewydd. Roedd hi wedi bod ar y môr ers tri mis, ac roedd yn cael ei hystyried yn forwr galluog. Cafodd hi waith gan gapten llong yn Nociau Caerdydd hefyd, a'i talodd fis ymlaen llaw, ond ar ôl darganfod ei fod wedi cyflogi merch, gwrthododd gadw ei gontract. Cafodd y carcharor ei cheryddu gan yr ynadon, a'i chynghori i ddychwelyd adref a dewis ffordd fwy gweddus o fyw. Yna cafodd ei rhyddhau.

Ffynhonnell: *Monmouthshire Merlin*, 18 Awst 1855



1859

Cudd-wybodaeth Heddlu Caerdydd. Morwr benywaidd – Achos Hynod

Cafodd Ann Stuart, 18 oed, heb foned, esgidiau neu hosanau, ei chyhoeddi o'r tramgwydd canlynol. Mae'n debyg y bu'r carcharor yn ymddangos yn oriau mân y bore yn yr orsaf heddlu lle eisteddodd ymhlith sawl dyn crwydr, ac wrth sgwrsio â nhw dywedodd ei bod wedi treulio dwy flynedd a hanner o wasanaeth ar long bwrdd fel morwr, a gan fod llongau Ffrengig ac Americanaidd yn y dociau yma, petai hi'n gallu cael siaced a phâr o drowsus dyn, byddai hi'n dynwared morwr eto. Dywedodd nad oedd ganddi ffrindiau, ac os nad oedd hi'n gallu mynd i'r môr byddai'n boddi ei hun, am ei bod wedi blino ar y bywyd roedd hi'n byw ar y pryd. Yna, rhoddodd Sarjant Giffard y carcharor yn y ddalfa ar y cyhuddiad olaf. Dywedodd ei bod wedi ymddangos o flaen ynadon Llys Heddlu Tafwys, Llundain, a bod meist'r y llong yr oedd hi wedi hwylio ynddi wedi cael ei gorfodi i dalu ei chyflogau fel morwr. Gofynnodd yr ynadon i'r carcharor o ble y daeth, ac atebodd mai'r Alban oedd ei lle brodorol, ond yr oedd wedi bod yn cerdded drwy'r wlad, a hynny'n cyfrif am ei hymddangosiad yng Nghaerdydd. Gorchmynnodd yr ynadon i'r carcharor gael ei chadw yn y Wyrchw.

Cofnod arestio Ann Stuart yng Nghofnodion Adran Sesiwn Fach Bwrdeistref Caerdydd, PSCBO, Archifau Morgannwg:

Ann Stuart -
Inspector Giffard about 1/2 62
This morning prisoner was
taken to the 11th Street
in the 1st Division with some
other prisoners and she
stayed two hours in the
as a man of bond ship

1867

Trwy gydol hanes, mae menywod 'gwrywaidd' wedi ennyn diddordeb mawr y gymdeithas, y rheiny y mae eu gwryweidd-dra eithafol yn arwain at gwestiynau ynghylch hunaniaeth rhywedd, ac un o'r enwocaf yng Nghymru oedd Marged ferch Ifan. Tynnwyd sylw gan y *Cardiff and Merthyr Guardian* at stori Marged, gan ychwanegu, "Mae tref Caerdydd yn cynnwys ychydig o'r parchusion hyn, a fydd, pan fyddant wedi gadael y llwyfan di-nod hwn, yn cael sylw'n ddiamau mewn rhyw gofeb yn y dyfodol."

Ffynhonnell: *Cardiff and Merthyr Guardian*, 25 Hydref 1867

1883

Atgynhyrchodd y

Cardiff Times gyfweiliad â'r seren Americanaidd, Lulu, Brenhines yr Awyr, acrobat syrcais gwrywaidd a oedd yn gwisgo fel menyw gyda'r bwriad o gynyddu cynulleidfaoedd.



Ffynhonnell: *Cardiff Times*, 13 Ionawr 1883

1885 - Cyhoeddwyd Deddf Diwygio Cyfraith Droseddol 1885 gan Senedd Prydain. Roedd adran 11 y ddeddf, a adwaenid fel Diwygiad Labouchere, yn gwahardd anwedduster dybryd rhwng gwrywod. Felly, daeth yn bosibl erlyn cyfunrywiad am gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol lle nad oedd modd profi sodomiaeth neu ymgais i gyflawni sodomiaeth.

1861 – Diddymwyd y gosb am sodomiaeth pan ddisodlwyd Deddf Troseddau yn erbyn y Person 1828 gan Ddeddf Troseddau yn erbyn y Person 1861. Roedd cyfanswm o 8921 o ddynion wedi cael eu herlyn ers 1806 am sodomiaeth gyda 404 wedi'u dedfrydu i farwolaeth a 56 wedi'u dienyddio. Parhaodd cyfunrywioldeb yn anghyfreithlon tan 1967 yng Nghymru a Lloegr a 1980 yn yr Alban.

1887

Cyhuddwyd John Nash, 34, a Henry Jones, 20, dau filwr, y naill yn perthyn i'r Gatrawd Gymreig a'r llall i Gatrawd y Gorllewin, o weithred o anwedduster dybryd yng Nghaerdydd ar 9 Hydref. Dewisodd carcharorion roi tystiolaeth ar lw, a gwnaeth ddatganiadau lle'r oedden nhw'n gwadu'r cyhuddiad yn bendant, gan bwysleisio ei fod yn annhebygol y byddent wedi ymddwyn fel yn nisgrifiadau'r tystion, gan dybio eu bod wedi mynd i'r tŷ bach at ddiben anghyfreithlon. Cafodd y rheithgor y carcharorion yn ddiuog, ac fe gawsant eu rhyddhau ar unwaith.

Ffynhonnell: *South Wales Daily Echo*, 9 Tachwedd 1887

Mae Vesta Tilley, un o dynwardwyr gwrywaidd mwyaf adnabyddus ei hoes, yn ymddangos yn Neuadd Gerddoriaeth y Grand, Heol y Porth, Caerdydd. "Gan wisgo dillad nos dyn, fel arfer, a chario het opera o dan ei braich, wrth dynnu o bryd i'w gilydd ar sigâr fwyn, byddai hi'n swyno'i chynulleidfa ymhen dim a fyddai'n mynnu dro ar ôl tro iddi ddangos ei hun eto."



Ffynhonnell: *South Wales Daily News*, 29 Mai 1887

1895 - Cafodd Oscar Wilde, a roddwyd ar brawf am anwedduster dybryd ynghylch perthynas â'r Arglwydd Alfred Douglas, ei ddedfrydu i ddwy

1898

Trosedd Annaturiol Honedig

Yn Llys Heddlu Caerdydd heddiw, gerbron yr Ynad Cyflogedig (Mr T. W. Lewis), anfonwyd Ismail Hassan (27), morwr Arabaidd, a Nathaniel Miles (19) i brawf ym Mrawdlys Morgannwg ar gyhuddiad o gyflawni trosedd annaturiol a ffaidd ar noson 4ydd dydd y mis hwn yn Heol Dumballs. *Rhyddhawyd.* Cafwyd Ismail Hassan, Arab, a Nathaniel Miles yn ddieuog o drosedd di-enw ar Faes Dumballs, Caerdydd.

Ffynonellau: *South Wales Echo*, 6 Mai 1898 a'r *Evening Express*, 6 Awst 1898



Caerdydd tua diwedd y 19eg ganrif.

19EG GANRIF

1906

Cynhaliwyd cwest yng Nghaerdydd ddydd lau ynglŷn â marwolaeth Francis Knight, plentyn deuryw Henry Knight, teithiwr masnachol, Heol Pen-y-lan. Dywedodd y fam fod y plentyn, a oedd wedi bod yn eiddil ers ei enedigaeth, wedi'i ffurfio yn y fath ffordd fel nad oedd modd gwybod ai bachgen neu ferch ydoedd. Dywedodd Dr Boyd, a gynhaliodd archwiliad post-mortem, fod marwolaeth o ganlyniad i glot gwaed ar yr aorta. Archwiliad post-mortem oedd yr unig fodd o ganfod rhyw y plentyn, sef ei fod yn ferch. Dygwyd rheithfarn o "Farwolaeth trwy achosion naturiol".

Ffynhonnell: *The Cambrian*, 25 Mai 1906.

1906

Ganwyd Binkie Beaumont, rheolwr a chynhyrchydd theatr, ym 1908. Cafodd ei fagu yng Nghaerdydd a daeth yn ffrind yn ddiweddarach i John Gielgud, er i bartner Gielgud, John Parry, symud i fyw gyda Beaumont.

1914 – Dechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf ym mis Awst 1914. Mae hanesydd y fyddin, A.D. Harvey, yn ysgrifennu bod "o leiaf 230 o filwyr wedi'u hanfon gerbron llys milwrol lle cawsant eu dyfarnu'n euog a'u dedfrydu i gyfnodau yn y carchar am droseddau cyfunrywiol" yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Gweler **2021** am fanylion llyfr Chris Bryant.

1921 - Cafodd y Ddeddf Diwygio Cyfraith Droseddol ei diwygio yn Nhŷ'r Cyffredin i gynnwys cymal a oedd yn gwneud "gweithredoedd o anwedduster dybryd" rhywiol rhwng menywod yn anghyfreithlon. Er pasiwyd y Ddeddf gan Dŷ'r Cyffredin,

1929

Ganwyd yr actor a'r awdur Vittorio Giorgio Andre "Victor" Spinetti (1929-2012) yng Nghwm, Blaenau Gwent. Roedd Spinetti'n byw gyda'i bartner o ddeugain mlynedd, Graham Curnow. Bu'n hyfforddi yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd, a daeth yn Gymrawd iddo'n ddiweddarach.

1939

Ganwyd Peter Gill, cyfarwyddwr, dramodydd ac actor theatr Cymreig, yng Nghaerdydd ar 7 Medi 1939. Fe'i disgrifiwyd yn *The Guardian* fel un o arwyr diglod theatr Prydain.

Ffynhonnell: The Guardian, 4 Medi 2019

1945 - Diwedd yr Ail Ryfel Byd. Yn dilyn y rhyfel, newidiodd agweddau moesol at gyfunrywioldeb.

1946 - Roedd Michael Dillon yn un o'r bobl gyntaf i gael llawfeddygaeth ailbennu rhywedd o fenyw i wryw.

1951 - Roberta Cowell, cyn-beilot Spitfire o'r Ail Ryfel Byd, oedd y fenyw drawsryweddol gyntaf i gael llawfeddygaeth gadarnhau o wryw i fenyw.

1954

Caniatawyd mechnïaeth gan yr ynadon yn y Drenewydd, Sir Drefaldwyn, wrth anfon Cliff Gordon, a ddisgrifiwyd fel dramodydd gyda'r B.B.C. o Ffordd Churchill, Caerdydd, i brawf ym Mrawdlys Caer wedi'i gyhuddo o geisio caffael gwryw arall i gyflawni gweithred amhriodol yn y Drenewydd ar 13 Tach.

Ffynhonnell: *News of the World*, 31 Ionawr 1954



Cliff Gordon

1954 - Bu Alan Turing, mathemategydd, rhesymegwr, cudd-ddadansoddwr a gwyddonydd cyfrifiadurol o Loegr, a fu'n ddylanwadol yn natblygiad cyfrifiadureg, ladd ei hun. Roedd wedi cael cwrs o hormonau benywaidd (disbaddiad cemegol) gan feddygon fel dewis amgen yn lle mynd i'r carchar ar ôl cael ei erlyn gan yr heddlu oherwydd ei gyfunrywioldeb.

Ffurfiwyd Pwyllgor Wolfenden. Pan ddaeth i ben ym 1957, roedd yn argymhell dad-droseddoli rhannol ar gyfer cyfunrywioldeb gwrywaidd. Pan nad yw'r argymhellion hyn yn cael eu dilyn gan y llywodraeth, mae'r Gymdeithas Diwygio Cyfraith Gyfunrywiol yn cael ei ffurfio i ymgychu dros ddeddfu'r argymhellion.

1962

Llythyr at y *South Wales Echo*: "Rhaid i mi edmygu Mr. Leo Abse (AS Pont-y-pŵl) am ei ddewrder wrth gyflwyno Bil i ddiwygio'r deddfau sy'n ymwneud â chyfunrywioldeb. Dioddefwyr blacmel yw eu dienyddwyr eu hunain; yn ogystal â difetha eu bywydau eu hunain, maen nhw hefyd yn difetha bywydau pobl ddiniwed. A. Margaret Patten, Melrose Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd."


Ffynhonnell: *South Wales Echo*, 27 Chwefror 1962

1965

Cafodd y ffilm ddrama ramantaidd LHDTC+, *Winter Kept Us Warm* ei dangos am y tro cyntaf fel ffilm agoriadol Gŵyl Ffilm y Gymanwlad yng Nghaerdydd, Cymru ar 27 Medi, 1965. Cafodd is-destun hoyw'r ffilm ei godio'n ofalus gan David Secter, a ysgrifennodd y ffilm ar sail ei brofiad ei hun o syrthio mewn cariad â chyd-fyfyriwr gwrywaidd ond roedd yn ofni na fyddai ffilm hoyw fwy amlwg yn denu cynulleidfa. Mae hyd yn oed rhai o gast y ffilm wedi honni mewn cyfweiliadau nad oeddent yn gwybod ar y pryd bod y ffilm yn ymwneud mewn gwirionedd â chyfunrywioldeb.

1967 - Ddeng mlynedd ar ôl Adroddiad Wolfenden, cyflwynodd AS Caerdydd, Leo Abse, Fesur Troseddau Rhywiol 1967 a gefnogwyd gan yr AS o'r Blaid Lafur Roy Jenkins, Ysgrifennydd Cartref Llafur ar y pryd.

1970 - Sefydlwyd y Gay Liberation Front (GLF).



© Casgliad Amgueddfa Caerdydd, CARCM: 2020.72

Roedd yr allwedd hon yn galluogi mynediad i glwb nos o'r enw SIRS ar Heol Eglwys Fair. Dywed Lewis Robinson wrthym: "Agorodd SIRS yn ystod y 1970au ac fe gaeodd rhywbryd yn y 1990au... Roedd yn glwb i ddynion hoyw yn unig a chafodd pobl wahoddiad i fod yn aelodau. Roedd 'Sirs' yn unigryw ac yn lle gwych i fynd. Mae gen i lawer o atgofion hapus yno. Byddech chi'n cael teimlad mawr o ryddid trwy fynd yno achos bod pawb yn gallu bod yn driw iddyn nhw eu hunain. Doedd dim rhaid i chi guddio pwy oeddech chi nac esgus bod yn rhywun arall. Roedd un drws yn unig i 'Sirs' drwy fynedfa'r stryd. Roedd angen yr allwedd arnoch i fynd trwy'r drws hwn. Doedd dim arwyddion na dim byd i ddangos ei fod yn 'Sirs' felly doedd gan berson cyffredin ddim syniad bod clwb hoyw yno."

Sefydlwyd Come Together, papur newydd y *Gay Liberation Front*, gan Weithdy Cyfryngau'r GLF ym 1970. Mae rhifynnau 1-16 wedi cael eu digideiddio gan Sefydliad Bishopgate a gellir eu cyrchu trwy glicio ar y ddolen uchod. Roedd y cylchgrawn yn ymwneud â Llundain yn bennaf ond roedd hefyd yn cynnwys manylion rhanbarthol gan gynnwys Howard Llewellyn yng Nghaerdydd, a rhif ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol.

CARDIFF:H.Llewellyn,RIB,
58, Charles St.,Cardiff.
Phone44441

Community
Services
Rhibon
BUZZ: 0272-36117
Cardiff
RIB: 0222-44441

Ac yn rhifyn 16 cafwyd hysbysebion rhanbarthol ychwanegol ar gyfer CHE (Ymgyrch dros Gydraddoldeb Cyfunrywiol), Cardiff Friend a bariau:

CARDIFF CHE
c/o CHE national office, 28, Kennedy St., M2 4BG.
Meets Chapter Arts Centre, Mondays at 8pm.
Cardiff Friend, c/o 58, Charles St., Cardiff. - provides counselling/befriending service for gay people with problems.
Bar; Roberts bar, Royal Hotel. Club; Show Biz Club.

CARDIFF GLF
c/o Rib, 58, Charles St., Cardiff.

Ffynhonnell: Come Together, Rhifyn 16 (heb ddyddiad)



© Casgliad Amgueddfa
Caerdydd, CARCM: 2012:58

Roedd y llusern hon yn arfer hongian uwchben mynedfa tafarn y Kings Cross yng nghanol y ddinas. Roedd tafarn y Kings Cross yn denu'r gymuned LHDTG+ ers y 1970au nes ei chau yn 2010. Dyma ymwelydd â Mardi Gras 2012 yng Nghaerdydd yn cofio: "Kings Cross Caerdydd oedd fy mhrofiad cyntaf o noson hoyw mas. Roedd yn noson hyfryd ac agorodd fy llygaid yn fawr i ba mor agored a chroesawgar gall noson hoyw mas yn y dref fod. Mae'n drueni ei bod

1971



F2021.72.2 © Amgueddfa Cymru

Bathodyn sy'n cael ei wisgo gan aelod o Ffrynt Rhyddid Hoyw Caerdydd. Sefydlwyd Ffrynt Rhyddid Hoyw Caerdydd ym mis Gorffennaf 1971, ond wedi sawl cyfarfod annibynnol fe unodd ag Ymgyrch Caerdydd dros Gydraddoldeb Cyfunrywiol, a bu'r grŵp cyfun yn cynnal cyfarfodydd wythnosol yng Nghanolfan Gelfyddydau'r Chapter.

1973

Pobl gyfunrywiol yn ceisio bargaen deg mewn addysg.

Caiff ymgais i atal gwahaniaethu yn erbyn athrawon cyfunrywiol ei lansio yng Nghaerdydd ar y penwythnos. Bydd pobl gyfunrywiol ledled y wlad yn ymweld â'r ddinas ddydd Sadwrn mewn cysylltiad ag ymgyrch sydd wedi'i ddylunio i addysgu plant am gyfunrywioldeb. Bydd o leiaf 80 o aelodau o grwpiau ymgyrchu lleol dros Gydraddoldeb Cyfunrywiol yng nghyfarfod y cyngor cenedlaethol yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Ond gallai eu galwadau gael eu hanwybyddu yn Neuadd y Ddinas Caerdydd. Mae'r pwyllgor addysg eisoes wedi dweud wrth grŵp CHE Caerdydd i adael eu man cyfarfod rheolaidd yng Nghanolfan Gelfyddydau'r Chapter yn Nhreganna.

Dywedodd Ysgrifennydd Cyffredinol CHE, Mr. Paul Temperton: "Rydyn ni'n credu mai'r unig ffordd y gallwn ni sicrhau gwell dealltwriaeth ymhlith pobl am gyfunrywioldeb yw rhoi'r holl ffeithiau amdano wrth y rhai ifanc." Dywedodd yr Henadur Sidney Doxsey, dirprwy gadeirydd pwyllgor addysg y ddinas, a ddisgrifiodd y grŵp cyfunrywiol lleol fel "weirdos" ar un adeg, na fyddai'n gwneud sylw ar y cynllun cyn iddo gael ei drafod yng nghyfarfod CHE ddydd Sadwrn. Ond dywedodd ei fod wedi derbyn llawer o lythyrau o gefnogaeth i'w alwadau di-flewyn-ar-dafod y dylai'r grŵp CHE lleol gael ei wahardd o gyfarfodydd yn y ganolfan gelfyddydol. Meddai, "Neithiwr fe es i i un o'u cyfarfodydd a dydw i ddim wedi newid fy marn nad oes gan y sefydliad anghonfensiynol hwn ddim i'w wneud â'r celfyddydau ac felly na ddylid cael cwrdd yng nghanolfan y celfyddydau.

Ffynhonnell: *South Wales Echo*, 4 Medi 1973

Disbaddu cemegol

Ym mis Ionawr 1973 ym Mrawdlys Caerdydd, cyhuddwyd William Coleman (61) o droseddau anwedduster a cheisio cyflawni sodomiaeth. Roedd ganddo hanes hir o droseddau rhywiol. Cafodd Coleman ei roi ar brawf am dair blynedd ar yr amod ei fod yn mynd i glinig seiciatryddol Ysbyty Dwyrain Morgannwg unwaith yr wythnos i gael triniaeth asetad cyproteron ar gyfer disbaddu cemegol.

Ffynhonnell: *New Scientist*, 8 Mawrth 1973

1974 - Mae'r AS Llafur [Maureen Colquhoun](#) yn dod allan fel yr AS lesbiaidd cyntaf.

1974

Rhyddid Hoyw yn meddiannu cynhadledd.

Bu tua 50 aelod o grwpiau Rhyddid Hoyw yn meddiannu'r gyngres anawsterau seicorywiol ym Mhrifysgol Bradford ym mis Medi. Ymhlith y grwpiau roedd y Grŵp Trawswisgwyr Cenedlaethol o Gaerdydd.

Ffynhonnell: *The Times*, 14 Medi 1974

1975

Mae awdur dienw o Gaerdydd yn anfon llythyr at y *South Wales Echo* o'r enw, *Homosexuals Don't Need Pity*, gan ychwanegu, "Fel gwryw cyfunrywiol nid wy'n byw mewn ofn; nid wy'n teimlo bod yn rhaid i mi guddio fy nghyfeiriadedd rhywiol oddi wrth fy ffrindiau neu fy nheulu. Nid wy'n teimlo fy mod wedi criplu, dan anfantais, yn annormal. Ac ydych chi'n gwybod pam? Oherwydd fy mod wedi dod i delerau â'm rhywioldeb. Nid yw'n teimlo cywilydd o'i herwydd ac nid wy'n byw bywyd cudd."

Ffynhonnell: *South Wales Echo*, 29 Tachwedd 1975



F2020.6.14-15 © Amgueddfa Cymru

Yng nghasgliad LHDTTC+ Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan, mae dau fathodyn sy'n dangos pram a'r symbol benywaidd dwbl. Roedd y person a roddodd y bathodynau hyn yn gwirfoddoli yng Nghanolfan Merched Caerdydd yn Coburn Street yn y 1980au. Mae'n cofio sut "roeddwn i'n rhan o Ganolfan Ferched Caerdydd a oedd yn Coburn Street. Gan fy mod yn lesbiad ac yn fam lesbiaidd fy hun, gwirfoddolais yno am sawl blwyddyn".

1980

Mewn dau achos gwahanol, cafodd dau ddyn ddirwy o £20 yr un gan ynadon Caerdydd am "lithio rhywun i bwrpas anfoesol" yn nhoiled cyhoeddus y dynion yng Nghastell Caerdydd. Fe wnaeth Thomas Davies, 30 oed, o Kingcraig Street, y Rhath, a Peter James Davies, 20 oed, o Gaernarvon Way, Trowbridge, gyfaddef y drosedd. Dywedodd cyfreithiwr Davies, Mr Peter Davies, ei fod yn deall bod gan y toiled rhyw enw drwg. Ffynhonnell: *South Wales Echo*, 30 Gorffennaf 1980.

Ffynhonnell: *Gay News*, 18 Medi 1980

Cymry'n brwydro dros Gydraddoldeb Hoyw.

Mae'r *South Wales Echo* yn cyhoeddi erthygl 'A National campaign for homosexual rights is to be led for the first time from South Wales' – gan yr Athro Michael Jarrett, o adran archaeoleg Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

Ffynhonnell: *South Wales Echo*, 29 Awst 1980

Mae Noel Sullivan o'r grŵp *Hear'Say* yn cael ei eni ar 28 Gorffennaf 1980 ac yn cael ei fagu yng Nghaerdydd.

1982 – Mae'r Cymro Terry Higgins yn marw o AIDS yn Ysbyty St Thomas, Llundain. Sefydlodd ei bartner Rupert Whitaker a'i ffrind Martyn Butler Ymddiriedolaeth Terry Higgins (a ddaeth yn Ymddiriedolaeth Terrence Higgins), yr elusen AIDS gyntaf yn y DU.

1984 – Mae'r AS Chris Smith yn cael ei ethol, sef y gwleidydd cyntaf erioed yn senedd y DU i fod yn agored am ei gyfunrywioldeb.

Mae Lesbians and Gays Support the Miners, ymgyrch o gefnogaeth LHDT+ i weithwyr ar streic yn ystod streic y glowyr rhwng 1984 a 1985, yn cael ei lansio. Mae'r ffilm *Pride* yn adrodd eu stori.

1985

Mae *Lesbiaid yng Nghymru* yn cwrdd yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru gan arwain at lu o lythyrau cwyno.

Ffynhonnell: *Western Mail*, 4 Ebrill 1985

'March of the sinful gays' – chwedl awdur llythyr yn gwrthwynebu'r orymdaith hoyw gyntaf yng Nghymru. Ffynhonnell: *South Wales Echo*, 20 Mai 1985

'City club where boy meets boy' – mae'r *South Wales Echo* yn argraffu erthygl hir am un o leoliadau enwocaf LHDTQ+ Caerdydd, The Tunnel. Ffynhonnell:

South Wales Echo, 20 Tachwedd 1985

1988 – Roedd Cymal 28 Deddf Llywodraeth Leol 1988 a ddeddfwyd fel diwygiad i Ddeddf Llywodraeth Leol 1986 y Deyrnas Unedig ar 24 Mai 1988 na allai awdurdod lleol "hyrwyddo cyfunrywioldeb yn fwriadol na chyhoeddi deunyddiau gyda'r bwriad o hyrwyddo cyfunrywioldeb" na "hyrwyddo addysgu mewn unrhyw ysgol a gynhelir bod cyfunrywioldeb yn dderbyniol fel perthynas deuluol honedig". Ni chafwyd yr un erlyniad o dan Gymal 28 gan nad oedd neb yn gwybod beth oedd ystyr 'hyrwyddo' na beth oedd 'perthynas deuluol honedig' yn ei olygu.



F2021.19.1 © Amgueddfa
Cymru


Caiff yr orymdaith Pride gyntaf yng Nghaerdydd ei threfnu gan Gymdeithas Hoyw Prifysgol Caerdydd (Gay Soc), grŵp cymdeithasol a chymorth. Daw'r sticer aur hwn o ddiwedd 1984 a oedd yn cael ei ddefnyddio i hysbysebu cyfarfodydd Cymdeithas Hoyw Prifysgol Caerdydd (Gay Soc) yn nhafarn *The Terminus* ar Heol Eglwys Fair, Caerdydd. Symudodd y cyfarfodydd yn ddiweddarach i dafarn y *Kings Cross*. Trefnodd y gymdeithas yr orymdaith Pride gyntaf yng Nghaerdydd ym 1985.

1988

Erthygl am AIDS yn cynhyrfu Tori.

Bu ffræ pan gwynodd y Tori Mr Ian Batty am ddisgrifiadau o weithredoedd cyfunrywiol a gafwyd mewn erthygl yn *Gair Rhydd*, cylchlythyr wythnosol myfyrwyr Caerdydd, fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth AIDS.

Ffynhonnell: *Western Mail*, 16 Chwefror 1988



© Amgueddfa
Cymru F2020.6.40

Roedd y llyfr dadleuol i blant, *Jenny Lives with Eric and Martin*, wedi'i gyhoeddi ym 1981 yn Naneg ac ym 1983 gan Gay Men's Press. Nod yr awdur oedd rhoi gwybodaeth i blant am wahanol fathau o berthnasod teuluol, ond pan ddaethpwyd ar ei draws mewn llyfrgell gyhoeddus ym 1986, condemnwyd y llyfr. Ym 1988 gwnaeth y comediwyr Mel Smith a Griff Rhys Jones (sy'n huanu o Gaerdydd yn wreiddiol) barodi o'r llyfr, gan wneud hwyl am ben yr holl helynt.


1990

Mae'r nofel *Fire in the Bay* gan Tom Davies yn cael ei chyhoeddi. Mae'r nofel, sydd wedi'i lleoli ym Mae Caerdydd, yn cynnwys nifer o unigolion sy'n cael eu disgrifio fel traws wisgwyr, gan gynnwys Sophie James, Somali ifanc brydferth.

1994

Llinell Gymorth AIDS Caerdydd ym mân hysbysebion *Gay Times*, Ebrill 1994





Cynhyrchwyd y sticeri hyn gan Rwydwaith Lesbiaid Hŷn (RhLH) Cymru ar gyfer Mardi Gras Caerdydd yn y 1990au. Mae Susan Edwards, cyn-uwch archifydd Archifau Morgannwg, yn disgrifio gweithgareddau'r RhLH. "Roedd y Rhwydwaith Lesbiaid Hŷn bob amser yn cadw stondin ym Mardi Gras. Dechreuodd ym 1994, fel cangen o'r RhLH yn Llundain. Roedd yn trefnu digwyddiadau, dadleuon unwaith y mis. Roedd cylchlythyr yn cael ei lunio a phan ddechreuon ni, roedden ni'n defnyddio teipiadur i deipio popeth ac roedden ni'n llungopïo popeth! Roedd llawer o ddadlau ynglŷn â'r hyn y dylen ni ei gynnwys yn y cylchlythyr h.y. yr hyn oedd yn briodol. Roedd dwy ochr i'r RhLH – hwy! a ffeministiaeth. Mewn gwirionedd, ei tharddiad oedd ffeministiaeth y 1980au."

1998

Yng nghyfraith Prydain doedd dim i atal dyn neu fenyw hoyw rhag mabwysiadu plentyn fel unigolyn, yn amodol ar gymeradwyaeth. Mewn gwirionedd roedd hyn yn anghyffredin. Yn ôl peth ymchwil a wnaed ym Mhrifysgol Caerdydd ym 1998, dim ond tri

o 2000 o fabwysiadau cymeradwy oedd gan hoywon.

Ffynhonnell: Human Relationships, Christina Rycroft & David Moxon, 2001

1999

Cynhaliwyd cynhadledd am *Eunuchs yn Antiquity and Beyond* ym Mhrifysgol Caerdydd ar 27 Gorffennaf. Mae un papur yn cynnwys *Natural Eunuchs in Roman Law: "Not Diseased or Defective"* gan Mark Brustman. "Gan nad oeddent wrth eu natur yn gallu cael rhyw genhedlol, roedd pobl yr henfyd yn cyfeirio at ddyinion oedd yn hoyw'n gynhenid fel "eunuchiaid o'u geni" neu "eunuchiaid" yn unig." Mae dolen i'r papur llawn ar wefan LHDTC Cymru o dan Hanes Cymru, 1990au

Mae'r Mardi Gras cyntaf yng Nghaerdydd yn cael ei gynnal ym Mharc Bute, Caerdydd, ym mis Medi 1999 fel ymateb i gynnydd mewn troseddau casineb yn ne Cymru.

Mae Cyngor Sir Caerdydd yn dilyn cyhoeddiad Gweithrediaeth yr Alban i gael gwared ar y gyfraith ddadleuol sy'n gwahardd cynghorau rhag hybu cyfunrwyoldeb. Gwnaeth y Cyngorydd Reece araith bersonol lle disgrifiodd y stigma y mae lesbiaid a dyinion hoyw yn ei deimlo a'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth yn llesteirio darparu gwasanaethau addysgol, cymdeithasol a lles cynhwysfawr. Cafodd ei chefnogi gan y Cyngorydd Nigel Howells a ddisgrifiodd Gymal 28 fel "darn gwrthun o ddeddfwriaeth". "Mae'n cynnig sgrîn ar gyfer bwlio homoffobig mewn ysgolion, yn atal addysg ac yn siarter i bobl ragfarnllyd sy'n cyfreithloni gwahaniaethu yn erbyn rhan o'n cymdeithas sy'n hawdd ei phardduo," meddai.

Ffynhonnell: *BBC Wales*, 30 Hydref 1999

20FED GANRIF

Ym mis Ebrill, cynhelir protestiadau y tu allan i'r Senedd ym Mae Caerdydd, yn erbyn arddangosfa wallus yr AS David Davies (Sir Fynwy) o lenyddiaeth 'hoiw' y mae'n credu y bydd rhaid i lyfrgelloedd ysgolion ei stocio os caiff Cymal 28 ei ddiddymu. Dywedodd Gavin Cox, Cynorthwydd i'r AC dros Drefaldwyn, Mick Bates, yn ei gŵyn yn erbyn y ddadl wael a gyflwynwyd gan Davies, "Mae Cymal 28 fel modd o ddiogelu plant ifanc yn cyfreithloni homoffobia ac mae'n ddigon posib y bydd yn arwain at fwy o niwed na lles. Po hiraf y mae plant yn cael eu dysgu mai priodas heterorywiol yw'r unig fath cywir o berthynas, hiraf y bydd anoddefgarwch yn bodoli a bydd plant yn parhau i ddiodef."

Ffynhonnell: *News Wales*, 5 Ebrill 2000

2000 - Mae llywodraeth Lafur y DU yn rhoi terfyn ar wahardd pobl hoiw o'r lluoedd arfog ar ôl i Lys Hawliau Dynol Ewrop yn deddfu ei fod yn anghyfreithlon. Mae'r llywodraeth hefyd yn cyflwyno deddfwriaeth i ddiddymu Cymal 28 yng Nghymru a Lloegr – mae ASau Ceidwadol yn gwrthwynebu'r cam. Mae'r mesur yn cael ei drechu gan esgobion a Cheidwadwyr yn Nhŷ'r Arglwyddi. Diddymwyd Cymal 2a (Cymal 28) o Ddeddf Llywodraeth Leol yn yr Alban ym mis Hydref er ei bod yn parhau mewn grym yng Nghymru a Lloegr.

2001

Yng Nghanolfan Gelfyddydau'r Chapter, cyflwynwyd y ddrama *Carrying Lyn* gan Paul Jeff, Lyn Levett, Richard Morgan, Mike Pearson a John Rowley. Perfformiad aml-safle oedd e gyda grŵp o ddynion yn cario'r perfformiwr traws anabl, Lyn Levett, o Orsaf Ganolog Caerdydd i Chapter. Aeth y llwybr heibio 12 pwynt sefydlog a chafodd ei recordio ar fideo. Casglwyd y darnau 10 munud hyn gan negeswyr beiciau ac yna eu cymryd yn ôl i Chapter ar gyfer y gynulleidfa.

Ffynhonnell: *Theatre in Wales*

2002

Mae clwb hoiw Cymru, *Club X*, ar Stryd Charles, Caerdydd yn ailddechrau arbrofi gydag ochr fwy ffynici cerddoriaeth house ar 17 Mai, gyda'r electrofunkateers K-Klass a'r act ddeuawd gyfareddol, The Superstarz. Mae'r clwb hefyd yn ehangu ystod ei fynychwyr i gynnwys clybwyr syth yn ogystal â'r rhai hoiw presennol gyda noson 'hard house' newydd, Generic, ar nos Wener gyntaf pob mis, unwaith eto ar agor tan 6am.

Ffynhonnell: *Barry & District News*, 10 Mai 2002

2003

Wrth ein boddau gyda'n priodas hoiw

Gwnaed hanes gan Lisa Slade a Julie Stamps o'r Barri ar ôl cymryd rhan yn seremoni ymrwymo gyntaf rhwng lesbiaid yng Nghymru. Siaradodd y gyrrwr tacsî Lisa (31) am yr ymdrech a gymerodd iddi hi, a Julie (23) sy'n gweithio yn Morrisons, ddatgan eu cariad

yn gyhoeddus. Wrth ymweld â swyddfa'r gofrestrfa yn Abertawe, gofynnwyd i Julie a Lisa a fydden nhw'n fodlon lansio'r gyntaf o'r seremonïau un rhyw. Cytunodd y ddwy, gan aros tan 1 Gorffennaf, oherwydd bod y cofrestrydd ar wyliau. Ychwanegodd Lisa: "Fe gawson ni wybod y byddai sylw yn y cyfryngau, ond doedden ni erioed wedi disgwyl yr holl heip 'ma. Roedd yn ein synnu'n fawr." Cafodd y derbyniad ei gynnal yn nhafarn y Golden Cross yng Nghaerdydd.

Ffynhonnell: *Barri & District News*, 10 Gorffennaf 2003

2004

Heddlu Gwent yn cefnogi Mardi Gras. "Bydd Heddlu Gwent yn chwilio am recriwtiaid newydd yng Nghaerdydd y penwythnos yma wrth i ddegau ar filoedd o bobl fynychu Mardi Gras Lesbiaid a Hoywon Cymru. Bydd gan yr heddlu stondin recriwtio yn y farchnad ar Cooper's Field, ac fe fydd swyddogion yn cynnig gwybodaeth am ymuno."

Ffynhonnell: *South Wales Argus*, 3 Medi 2004

Sefydlwyd Clwb Rygbi Llewod Caerdydd, y tîm rygbi hoyw a chynhwysol cyntaf yng Nghymru.



2008

Cyflwynodd Russell T. Davis y cymeriad cyntaf i fod yn agored am fod yn gwiar i fyddysawd *Doctor Who*: Jack Harkness, a oedd yn cael ei chwarae gan John Barrowman. Roedd cusan ar y sgrin rhwng Jack a'r Doctor. Jack hefyd oedd y cymeriad canolog yn *Torchwood*, cyfres a ddeilliodd o Doctor Who wedi'i hadfywio yn 2005, a ddarllledwyd rhwng 2006 a 2011.

2003 - Mae Cymal 28, a oedd yn gwahardd cynghorau ac ysgolion rhag hyrwyddo cyfunrywioldeb yn fwriadol, yn cael ei diddymu yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon. Roedd Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn pobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol yn y gwaith.

2004 - Mae Deddf Partneriaethau Sifil 2004 yn cael ei phasio gan y Llywodraeth Lafur, gan roi'r un hawliau a chyfrifoldebau i gyplau o'r un rhyw â chyplau heterorywiol priod yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae Deddf Cydnabod Rhywedd 2004 yn cael ei phasio gan y Llywodraeth Lafur. Mae'r Ddeddf yn rhoi cydnabyddiaeth gyfreithiol i bobl drawsrywiol fel aelodau o'r rhyw sy'n briodol i'w rhywedd (gwrywaidd neu fenywaidd) gan ganiatáu iddynt gaffael tystysgrif geni newydd, gan roi cydnabyddiaeth lawn iddynt o'u rhyw caffaeledig yn y gyfraith at bob diben, gan gynnwys priodas.

Ffurfiwyd Corws Dynion Hoyw De Cymru gan Andrew Bulleyment.



F2021.73.1-4 © Amgueddfa Cymru

Gwisg gan aelod o Gorws Dynion Hoyw De Cymru.

2008

Sefydlwyd Clwb Pêl-droed Dreigiau Caerdydd, sef clwb pêl-droed LHDTTC+ cyntaf Cymru, a'r unig un. Cynhaliwyd eu gêm gyntaf ddydd Sul 26 Hydref 2008 lle curon nhw Rufeiniaid Llundain 5-4 ym Mharc Caedelyn, yr Eglwys Newydd.



Gwisgwyd y crys hwn gan Ddreigiau Caerdydd o 2008 tan 2011. Mae David Amos yn cofio sut cafodd Dreigiau Caerdydd eu sefydlu: "Do'n i ddim yn meddwl am eiliad y byddai 'na dîm yng Nghaerdydd. Yn 2008 cysylltodd dau ddyn o Birmingham â fi (drwy'r Rhwydwaith Cefnogwyr Pêl-droed Hoyw) a oedd yn dod i Brifysgol Caerdydd... gofynnou nhw a oedd 'na unrhyw dimau yng Nghaerdydd... ac fe ddweddes i na. Fe ddwedon nhw eu bod nhw am dreialu rhywbeth a gweld a fyddai unrhyw un eisiau dod draw i sesiwn ymarfer. Dyna sut dechreuodd popeth ym mis Gorffennaf 2008. Daeth 13 o bobl i'n sesiwn gyntaf... mae wedi mynd o nerth i nerth."

2008 - Angela Eagle yw'r AS benywaidd cyntaf i ymrwymo i bartneriaeth sifil (gyda'i phartner Maria Exall)

2009 - Seren rygbi Cymru, Gareth Thomas, yw'r athletwr gwrywaidd proffesiynol lefel uchaf adnabyddus cyntaf mewn chwaraeon tîm i ddod mas tra ei fod yn cymryd rhan mewn chwaraeon proffesiynol o hyd.

2010 - Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwneud gwahaniaethu yn erbyn lesbiaid a dynion hoyw wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau yn anghyfreithlon.

2010

Ar 2 Tachwedd, aeth Ieuenctid Rhyddfrydol Cymru a'u hymgyrch atal bwlio homoffobig i'r Senedd ym Mae Caerdydd am 12.30pm i gyflwyno eu deiseb i gadeirydd Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad Cenedlaethol, Christine Chapman AC.

Roedd y ddeiseb yn dweud:

"Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau gorfodol i bob ysgol (ffydd, gwladol neu breifat) ynglŷn â bwlio homoffobig. Rydym yn annog yn gryf bod newidiadau'n cael eu hymgorffori'n gyflym ac ar frys."

Wrth sôn am y ddeiseb, dywedodd Swyddog Ymgyrchoedd Ieuenctid Rhyddfrydol Cymru, Oliver Townsend:

"Fe wnaeth Llywodraeth y Cynulliad addo cyhoeddi canllawiau atal bwlio homoffobig ddeng mis yn ôl, ond mae wedi methu â gwneud hyn.

"Yn y cyfamser, roedd plant mewn ysgolion ar draws y sir yn parhau i gael eu bwlio am ddim

rhewm ar wahân i fod yn hoyw neu'n drawsryweddol. Mae'n anfaddeuol anwybyddu'r broblem hon bellach ac rydym yn benderfynol o wneud i Lywodraeth y Cynulliad wrando."

Ffynhonnell: *The Guardian*, 2 Tachwedd 2010

2011

Mae *The Guardian* yn cynnwys: 'Caerdydd heddiw - Blogwyr yn cwrdd, mis LHDT ac oes modd dod o hyd i gariad ar-lein? Heddiw, 1 Chwefror, fydd dechrau dathliad hyd mis o Fis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol (LHDT). Mae Amgueddfa Cymru yn cynnal rhaglen lawn o arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau a bydd darlith arbennig gyda'r nos yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ar Gyfunrywioldeb Groeg yr Henfyd nos lau 10 Chwefror, 6pm.

Ffynhonnell: *The Guardian*, 1 Chwefror 2011

Ym mis Rhagfyr, mae *Mr Gay UK* yn cael ei ennill gan ddyn o Gaerdydd, Samuel Kneen.

2012

Mae **Pride Cymru**, yr arddangosfa LHDT+ gyntaf, yn cael ei chynnal yn Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd. Mae'n cynnwys 20 panel o bobl, digwyddiadau, cynghreiriaid a stondinau arddangos. Yn y lansiad, darllenodd Bardd Cenedlaethol Cymru ar y pryd, Gillian Clarke, ei cherdd *Sarah at Plas Newydd, 5 July 1788* ac, hyd y gwyddom, hon yw'r gerdd gyntaf a'r unig gerdd yn y byd o hyd i'w chysegru gan Fardd Cenedlaethol neu Fardd Llawryfod i bobl LHDT+ unrhyw wlad.



Sefydlwyd Songbirds Choir yn 2012, sef côr cymunedol ar gyfer menywod LHDT+ a phobl anneuaid yng Nghaerdydd (a'r unig gôr o'r fath yng Nghymru).

Dechreuodd ymgynoriadau ar ddeddfwriaeth i ganiatáu priodasau o'r un rhyw yng Nghymru a Lloegr yn 2012. Ni chafwyd ond un ymgynghoriad gan y llywodraeth yng Nghymru, a chynhaliwyd hwn ar 15 Mai 2012 yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig Caerdydd. Cyhoeddwyd yr ymateb i'r Ymgynghoriad Priodasau Sifil Cyfartal ar 12 Mehefin. Mae copi ar gael yn Archifau Morgannwg Cyf: 16 – Ymgynghoriad un rhyw – 2012 D1227

Detholiad o'r adroddiad:

Another argument used by those in opposition was that marriage was a 'tradition' and so should not be redefined. The groups discussed this and agreed that the use of the word marriage has continuously changed including both the legal and cultural role of marriage. The participants felt that describing something as 'a tradition' was not a reason to block change as many traditions, good and bad, have changed over the years as society matured.

Some concerns have been expressed about the use of 'husband' and 'wife' and how these may have to be removed from forms and legislation. This was seen as a particularly weak argument given the fact that the words 'husband' and 'wife' have always been used by LGBT people to describe their partners even before there were civil partnerships. Therefore, there would be no need for a change to vocabulary of marriage.





© Casgliad Amgueddfa
Caerdydd, CARCM:
2014.37

Rhodddwyd pasys fel hwn i artistiaid a berfformiodd ym Mardi Gras Caerdydd 2013, a gynhaliwyd am y tro cyntaf a'r unig dro yn Stadiwm y Mileniwm Caerdydd. Ymhlith yr artistiaid y flwyddyn honno roedd Beverley Knight a Rylan Clark. Cynhaliwyd y digwyddiad Mardi Gras cyntaf erioed yng Nghaerdydd ar 4 Medi 1999 gyda 5,000 yn bresennol. Ers hynny, mae wedi mynd yn fwyfwy poblogaidd ac mae bellach yn denu dros 50,000 o bobl. Yn 2014 newidiodd Mardi Gras Caerdydd ei enw i Pride Caerdydd.



© Casgliad Amgueddfa
Caerdydd, CARCM: 2019.9

Rhodddwyd y lasys enfys hyn gan Ddreigiau Caerdydd. Clwb Pêl-droed Dreigiau Caerdydd yw clwb pêl-droed LGBTRh+ cyntaf Cymru, a'r unig un. Yn 2013, lansiodd Stonewall eu hymgyrch Lasys Enfys er mwyn mynd i'r afael â homoffobia mewn pêl-droed. Rhodddwyd Lasys Enfys i holl glybiau'r Uwch Gynghrair a'r Gynghrair Bêl-droed a chafodd chwaraewyr eu hannog i wisgo'r lasys i ddangos cefnogaeth i bobl LHDTCRh mewn chwaraeon.

2014

Ail-enwyd Mardi Gras Caerdydd yn Pride Cymru, ac mae wedi gweithredu o dan yr enw hwn byth ers hynny.

2014 - Caiff priodasau o'r un rhyw eu gwneud yn gyfreithlon yng Nghymru a Lloegr ar 29 Mawrth o dan y Ddeddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw)

2016 - Hannah Blythyn, Jeremy Miles ac Adam Price oedd aelodau cyntaf Cynulliad Cymru i fod yn agored am fod yn hoyw.

2017

Mae Pride Cymru yn symud o Barc Bute i lawntiau Neuadd y Ddinas ac mae wedi cael ei gynnal yno ers hynny.

Mae Amgueddfa Caerdydd yn cynnal *Dathlu Caerdydd LHDT*, ei harddangosfa LHDT+ gyntaf.

2018

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Awst 2018, cafodd digwyddiadau LHDT+ (a drefnwyd o dan y teitl 'Mae ar y Maes') eu cynnwys fel rhan o'r rhaglen swyddogol am y tro cyntaf.

2019

Cynhelir Pride Byddar Cymru am y tro cyntaf yn Pride Cymru.

Wedi'i drefnu gan Glitter Cymru, cynhaliwyd Pride Pobl i Liw a Lleifarfoedd Ethnig cyntaf Cymru ar 10 Awst 2019 yng Nghanolfan Gymunedol Cathays, Caerdydd.

Yn y Senedd cyflwynodd Glitter Cymru "brofiadau mudwyr LHDT+ dan orfod o gyrraedd ac ymgartrefu yng Nghymru", yr adroddiad cyntaf o'i fath erioed. Galwodd yr adroddiad hwn am Gynllun LHDT+ ymbarél ar gyfer Cymru, gan sbarduno'r syniad ar gyfer y *Cynllun Gweithredu LHDT+*. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn hanfodol wrth

gynnwys mudwyr LHDT+ dan orfod yn yr Adroddiad Cenedl Noddfa sydd ar ddod.



F2019.47.1 © Amgueddfa Cymru

Baner Glitter Cymru yn 2018, a ddefnyddiwyd mewn amryw ddigwyddiadau Pride gan gynnwys y Pride BAME cyntaf i Gymru a gynhaliwyd ar 10 Awst, 2019 yng Nghanolfan Gymunedol Cathays, Caerdydd.

Ehangodd G(end)er Swap i Gymru gyda sesiynau cymdeithasol a chyfnewid dillad yn Shift yng Nghaerdydd.

2020

Dechreuodd TransAid Cymru fel grŵp cyd-gymorth lleol yng Nghaerdydd, o'r enw South Wales Trans Nonbinary Mutual Aid (neu SWTN Mutual Aid). Fe'i sefydlwyd ym mis Mehefin 2020 gydag egwyddor sylfaenol cyd-gymorth yn sail i'w ethos: 'bod pob un ohonom yn gyfrifol am ofalu am ein gilydd a newid ein cyflyrau.'

Dechreuodd Glitter Sisters fel rhan womynx ac enby Glitter Cymru. Dyma'r unig grŵp ar gyfer womynx ac ebnyx cwiar o liw yng Nghymru.


Cynhaliodd Glitter Cymru banel Womynx Pobl Gwiar o Liw cyntaf yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth un o sylfaenwyr Stonewall, Olivette Cole-Wilson.

2021

Fel rhan o *Gynllun Gweithredu LHDTC+* Llywodraeth Cymru, mae cwrs hyfforddi 5 sesiwn mewn *laith a Hanes LHDTC+* yn cael ei gomisiynu ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau lleol. Yr unig lywodraeth yn y byd sydd wedi gwneud hyn.

2021 - Owen J Hurcum oedd maer anneauidd cyntaf y byd a maer etholedig ieuengaf Cymru erioed i gael ei ethol yn faer Cyngor Dinas Bangor yng Ngwynedd, Cymru.

Mae *The Queer Emporium* yn agor yng Nghaerdydd yn 2-4 Arcêd Brenhinol, Heol Eglwys Fair, gyda 20 o fusnesau a chrewyr LHDTC+, yn ogystal â digwyddiadau a chaffi awyr agored!



F2021.50.1 ©
Amgueddfa Cymru

Bathodyn The Queer Emporium Credir mai The Queer Emporium yw'r Queer Emporium cyntaf yn y DU, ac o bosibl yn y byd.

Mae Norena Shopland yn sgwrsio â'r AS o Gaerdydd, Chris Bryant, am ei lyfr *Glamour Boys: The Secret Story of the Rebels who Fought for Britain to Defeat Hitler*. Mae'r cyfweiliad llawn i'w weld ar dudalen Facebook Pride Cymru.

2022

Lansiodd Glitter Cymru ac AEDdD yr "Adroddiad Anghenion Tai Lloches LGBTQC+", yr adroddiad cyntaf o'i fath yn y DU, sy'n eiriol dros dai lloches ar gyfer pobl LHDTC+ yn unig.

Dim ond ychydig o uchafbwyntiau yw'r rhain o hanes cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd Caerdydd.

Os ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi hepgor unrhyw beth y dylid ei gynnwys, rhowch wybod i ni.

Byddwn yn diweddararu'r llinell amser yn rheolaidd.

Diolch am ddarllen

Y staff a'r gwirfoddolwyr yn Amgueddfa Caerdydd.